*This document is available in English* **Eitem ar yr Agenda 8**

| | |
|---|---|
| Adroddiad ar gyfer | **Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru** |
| Dyddiad | **18 Mawrth 2019** |
| Swyddog Arweiniol | **Helen MacArthur Prif Swyddog Cynorthwyol (Cyllid a Chaffael)** |
| Swyddog Cyswllt | **Helen MacArthur (01745 535286)** |
| Pwnc | **Cynllun Archwilio 2019** |

**PWRPAS YR ADRODDIAD**

1 Cyflwyno, i'r Aelodau, gynllun archwilio 2019 ar gyfer Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru fel sydd yn atodiad 1.

**CRYNODEB GWEITHREDOL**

2 Mae'r cynllun archwilio yn nodi gwaith arfaethedig Swyddfa Archwilio Cymru ar gyfer y flwyddyn i ddod, yn ogystal â'i ffi.

**ARGYMHELLIAD**

3 Gofynnir i'r Aelodau nodi'r wybodaeth sy'n cael ei darparu.

**CEFNDIR**

4 Mae'r cynllun archwilio yn nodi'r gwaith arfaethedig, a'i gost. Amcan Archwilydd Cyffredinol Cymru yw cynnal archwiliad a chyflawni ei rwymedigaethau o dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004, Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009, Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, Deddf Llywodraeth Leol 1999 a'r Cod Ymarfer Archwilio.

**GWYBODAETH**

5 Bydd Swyddfa Archwilio Cymru yn gwneud y gwaith canlynol:

- gwaith cyfrifon ariannol, gan gynnwys adroddiad archwilio datganiadau ariannol a barn ar ddatganiadau ariannol
- gwaith perfformiad, gan gynnwys archwiliadau ar y cynllun gwella, yr egwyddor datblygu cynaliadwy, ac archwiliadau lleol a chenedlaethol sydd heb gael eu cadarnhau eto.

6 £60,309 yw'r ffi a amcangyfrifir ac a nodir yn y cynllun archwilio. Fodd bynnag, os gwelir bod angen gwaith ychwanegol, mae'n bosibl y bydd ffi ychwanegol.

**GOBLYGIADAU**

| | |
|---|---|
| Amcanion Llesiant | Hwyluso gwasanaethau tân ac achub mwy integredig sydd o ansawdd uchel ac yn ymatebol fel bod gweithgareddau ataliol ac ymateb brys yn gallu parhau i fod ar gael pryd a lle mae eu hangen, ac hynny'n fforddiadwy, yn deg ac ar sail risg |
| Cyllideb | £60,309 o gost, ac mae darpariaeth yn y gyllideb ar gyfer hynny. |
| Cyfreithiol | Bydd y gwaith a gynigir gan Swyddfa Archwilio Cymru yn golygu asesiad gwrthrychol o gydymffurfiaeth â'r ddeddfwriaeth a'r codau a ganlyn.<br><br>Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004<br>Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009<br>Deddf Llywodraeth Leol 1999<br>Cod Ymarfer Archwilio<br>Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 |
| Staffio | Amser swyddogion Tân ac Achub a swyddogion Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy i weithio gyda Swyddfa Archwilio Cymru yn ystod yr archwiliadau. |
| Cydraddoldeb/Hawliau Dynol/Y Gymraeg | Dim |
| Risgiau | Petai archwiliadau ariannol ddim yn cael eu cynnal, ni fyddai gwallau neu hepgoriadau yn y cyfrifon yn cael eu canfod a byddai rhanddeiliaid yn cael darlun camarweiniol o'r gwariant. |